GRID GWYRDD GWENT
GWENT GREEN GRID

# Cylchlythyr 1: Tachwedd 2021



**Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (GGGP) yn brosiect tair blynedd sy'n rhedeg o fis Mawrth 2020 i fis Mawrth 2022. Oherwydd yr oedi sylweddol a achosodd pandemig Covid-19, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid i'r bartneriaeth ym mis Mai 2021, gan olygu y cafodd darpariaeth y prosiect ei grynhoi i gyfnod o ddwy flynedd. Bu'r bartneriaeth yn brysur yn recriwtio i swyddi newydd o fewn tîm y prosiect a gwaith sefydlu ym mhob un o'r ffrydiau gwaith. Mae'r Cylchlythyr cyntaf hwn yn cyflwyno'r prosiect ac yn amlinellu nodau ac amcanion pob un o'r pump ffrwd gwaith.**



## Y GGGP

Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn anelu i wella a datblygu seilwaith gwyrdd – term a ddefnyddir i ddisgrifio'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, gofodau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sydd rhwng ac yn cysylltu pentrefi, trefi a dinasoedd - yn ogystal â darparu cyfleoedd swyddi gwyrdd o fewn yr ardal. Mae gan seilwaith gwyrdd rôl hanfodol i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag argyfyngau natur, newid hinsawdd ac iechyd.

Caiff y bartneriaeth ei harwain gan Gyngor Sir Fynwy, gan weithio gyda chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymchwil Coedwigoedd ac Asiantaeth Ynni Hafren Gwy. Bydd y sefydliadau yn cydweithio i sicrhau fod adnoddau naturiol yr ardal yn iach, yn wydn i bwysau a bygythiadau ac felly yn fwy galluog i roi buddion iechyd a llesiant hanfodol ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn dod â bywyd i ymrwymiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) drwy well cydweithredu gyda phartneriaid, gan gynnwys dinasyddion lleol a darparu ar draws pob un o'r saith nod llesiant. Bydd hyn hefyd yn helpu i weithredu fel dull cyflenwi ar gyfer Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru yn gweithio gydag Adnoddau Naturiol Cymru.

Bydd y prosiect yn sicrhau amrywiaeth o fuddion llesiant i gymunedau a chynlluniau a lleol i wneud gwelliannau i ofodau gwyrdd, parciau trefol a gwledig, ffyrdd seiclo a hawliau tramwy cyhoeddus. Bydd yn hwyluso gwell rheolaeth coetiroedd a chreu ac yn gweithredu i ddiogelu a gwella cynefinoedd hanfodol ar gyfer peillwyr. Bydd y bartneriaeth hefyd yn ymchwilio gwell rheolaeth ar ofodau naturiol i ddarparu cyfleoedd sy'n cyflenwi gweithgaredd ataliol gyda ffocws ar iechyd.

Cefnogir y prosiect gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig a chaiff ei ariannu gan grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru.

Caiff cyfres o raglenni allweddol a phrosiectau allweddol yn cyflenwi cyfleoedd a chynnydd ym mhob un o'r ffrydiau gwaith hyn ei amlinellu islaw.



## FFRWD GWAITH 1:
## Strategaeth a phartneriaeth Seilwaith Gwyrdd rhanbarthol

Mae'r GGGP yn arddangos ffordd sy'n torri tir newydd o gydweithredu i gyflawni canlyniadau strategol a lleol i roi dull gweithredu rhanbarthol at Seilwaith Gwyrdd yng Ngwent. Drwy'r cydweithredu hwn, mae'r ffrwd gwaith cyntaf yn canolbwyntio ar sefydlu strategaeth Seilwaith Gwyrdd Rhanbarthol ac yn eistedd wrth ei ochr, Asesiad o Effaith Iechyd Rhanbarthol ac Asesiad o Effaith Llesiant Meddwl. Gyda rolau allweddol o fewn y bartneriaeth GGGP yn awr yn eu lle, mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu grŵp partneriaeth ehangach a dechrau gweithio ar ddeilliannau strategol.

## FFRWD GWAITH 2:
## Coridorau Gwyrdd Gwent

Bydd yr ail ffrwd gwaith yn datblygu cynllun i ddynodi'r dolenni coll yn y rhwydwaith mynediad yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae'r ffrwd gwaith hwn hefyd yn cynnwys agwedd addysgol a phrosiectau mynediad ar lawr gwlad. Caiff y ffrwd gwaith ei reoli gan y Cydlynydd Mynediad Rhanbarthol.

Caiff yr elfennau ymarferol eu darparu drwy raglen hyfforddiant parcmyn, a oruchwylir gan Gydlynydd Parcmyn dan Hyfforddiant. Ar lawr gwlad caiff gwelliannau eu gweithredu'n rhanbarthol ac yn lleol i alluogi pobl i fyw mewn ffordd iach ac egnïol, rhoi cyfleoedd economaidd ac ehangu, lle'n bosibl, y rhwydwaith sydd ar gael i seiclwyr a marchogwyr.

Bydd y barneriaeth yn sefydlu grŵp mynediad strategol rhanbarthol fydd yn bwydo i'r fforymau mynediad lleol ac yn datblygu Cynllun Mynediad Rhanbarthol.



## FFRWD GWAITH 3:
## Ardaloedd Peilot i-Tree Eco Gwent

Caiff prosiect i-Tree Eco ei gwblhau fel rhan o raglen Grid Gwyrdd Gwent. Bydd y prosiect yn rhoi golwg fanwl ac ystadegol gadarn o boblogaeth coed Cas-gwent a'r trefi a phentrefi o amgylch yng Nglannau Hafren a helpu'r rhai sy'n gofalu am y coed i wneud penderfyniadau rheoli mwy gwybodus. Roedd prosiect i-Tree yn golygu fod angen casglu gwybodaeth o 200 lleoliad a ddewiswyd ar hap , ac roedd arolygwyr coed proffesiynol a hefyd wirfoddolwyr yn cymryd rhan. Cafodd y gwirfoddolwyr eu hyfforddi yn yr ystafell ddosbarth ac ar leiniau ymarfer yng Nghastell Cil-y-coed ar 21 Gorffennaf (gweler y llun) cyn cael ei anfon mewn parau i gasglu eu data. Ymwelodd cyfanswm o 12 o wirfoddolwyr â bron chwarter holl leoliadau'r prosiect, gan fod yn gyfraniad gwych i'r prosiect yn gyffredinol yn ogystal â rhoi cyfle i ddysgu mwy am goed, sut i fesur maint coeden a sut i gofnodi ei chyflwr. Ymwelwyd â phob un o'r 200 lleoliad cyn diwedd mis Awst ac mae Ymchwil Coedwigoedd yn awr yn dadansoddi'r data. Mae trefnwyr y prosiect yn diolch i'r holl berchnogion cartrefi a busnesau a fu mor garedig â rhoi caniatâd i syrfewyr i gael mynediad a chwblhau eu harolygon.



Mae'r prosiect yn ffurfio'r ail astudiaeth achos ar gyfer GGGP, gyda'r cyntaf yng Nghasnewydd. Yn dilyn adolygiad o'r data o'r safleoedd hyn. Allbwn allweddol fydd gwell dealltwriaeth o strwythur y goedwig trefol (yn cynnwys model i ymestyn ar draws Gwent i alluogi gwell gwneud penderfyniadau i reoli coed yn lleol ac yn strategol. Bydd adroddiad llawn, yn cynnwys crynodeb ar gyfer darllenwyr heb fod yn arbenigol, yn barod ddechrau haf 2022.

## FFRWD GWAITH 4:
## Prosiectau Seilwaith Gwyrdd Gwent

Wedi'i seilio ar ganlyniadau strategol y bartneriaeth, bydd y prosiectau Seilwaith Gwyrdd yn cyflwyno ystod o welliannau ymarferol i'r tirlun, datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli seilwaith gwyrdd, gweithredu canlyniadau Natur Wyllt, cyflenwi'r dull rheoli cyfeillgar i beillwyr a gwelliannau i fynediad. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau, ceisio gwelliannau ar draws Gwent mewn gofodau gwyrdd, parciau gwledig, ar hyd llwybrau seiclo, hawliau tramwy cyhoeddus, coetiroedd a thir arall sy'n eiddo ac yn reoli gan sefydliadau partner, busnesau preifat ac unigolion lle'n ymarferol.



## FFRWD GWAITH 5:
## Gwent Cyfeillgar i Beillwyr

Rhannwyd y gwaith yn y ffrwd gwaith hwn yn ddwy elfen: Natur Wyllt a Glaswelltir Cydnerth (torri a chasglu).
Bydd Natur Wyllt yn cysylltu gyda chymunedau lleol ar draws ardal Grid Gwyrdd Gwent i godi ymwybyddiaeth o ddirywiad peillwyr ac annog perchnogaeth a grymuso cymunedol i gyflwyno camau gweithredu fydd yn helpu eu hadferiad. Bydd y prosiect yn sefydlu dull cydlynus i reoli Seilwaith Gwyrdd, i greu cynefinoedd i beillwyr ar draws yr ardal. Caiff cod gweithredu a rhaglen hyfforddiant eu cyflwyno i weithredwyr, gan gefnogi rheoli peillwyr effeithlon, bydd y prosiect hefyd yn cyfrannu at ddatblygu polisïau peillwyr ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau perthnasol i sicrhau gwelliant tir graddfa eang ar gyfer peillwyr a chreu rhwydweithiau ecolegol cadarn.

Bydd y prosiect Torri a Chasglu yn ystyried y dulliau sydd eu hangen ar gyfer rheoli glaswelltir yn effeithlon gan fynd i'r afael â rhwystrau a dynodi gwahanol driniaethau i ddefnyddio gwair wedi'i dorri. Caiff hyn ei gyflwyno gan Asiantaeth Ynni Hafren Gwy, a fydd mewn partneriaeth gyda phob Awdurdod Lleol yn dynodi lleoliadau/safleoedd strategol/ardaloedd allweddol i wella glastiroedd ar gyfer peillwyr a dylunio a chynorthwyo wrth gyflawni'r prawf. Mae Asiantaeth Ynni Hafren Gwy wrthi'n casglu data gan awdurdodau lleol ar ba lefel o dorri a chasglu maent yn ei wneud ar hyn o bryd, y peiriannau a ddefnyddiwyd a lle mae glaswellt wedi'i dorri erbyn hyn.

# DYMA'R TÎM!



### HELEN FAIRBANK
**Arweinydd Cydweithredu GGGP**

Fy rôl fel Arweinydd Cydweithredu yw cydlynu a rheoli'r GGGP. Yn seiliedig yng Nghyngor Sir Fynwy, rwy'n gweithio gyda holl bartneriaid y prosiect yn ogystal â Llywodraeth Cymru i sicrhau fod y bartneriaeth yn cyflawni cyfres o allbynnau rhaglen a sicrhau canlyniadau gwaddol.



### JAMES BOWER
**Cydlynydd Parcmyn Gwledig dan Hyfforddiant**

Fy rôl o fewn y GGGP yw cyflwyno rhaglen hyfforddi gadarnhaol a gwerth chweil ar gyfer yr hyfforddeion ar draws y 5 ardal awdurdod lleol, gan fonitro ac asesu eu cynnydd tra caiff gwaith gwerthuso ei gwblhau. Byddaf yn rhoi cefnogaeth ymarferol ac yn trefnu cyrsiau hyfforddiant, gan roi'r wybodaeth, sgiliau a'r hyder i'r hyfforddeion y byddant eu hangen ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.



### STACEY DELBRIDGE
**Swyddog Prosiect Natur Wyllt**

Stacey ydw i a byddaf yn cydlynu cyflwyno prosiect Gwent Gyfeillgar i Beillwyr: Natur Wyllt. Rwy'n edrych ymlaen at godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd peillwyr o fewn cymunedau a chefnogi awdurdodau lleol i wneud newidiadau i reolaeth. Mae dull gweithredu strategol y prosiect yn hanfodol ar gyfer rhwydweithiau ecolegol cryf a chydnerth.



### ELLIOT WATERS
**Swyddog Gweithredu Natur Wyllt**

Elliot ydw i a byddaf yn cyflwyno prosiect Gwent Gyfeillgar i Beillwyr: Natur Wyllt ar draws y rhanbarth. Rwy'n edrych ymlaen at ddechrau ennyn diddordeb pobl leol am amrywiaeth wych y peillwyr sydd gennym yng Ngwent a chefnogi gweithwyr awdurdodau lleol i greu ardaloedd o gynefinoedd ansawdd uchel ac ecosystemau cydnerth.



### JADE JAMES
**Cynorthwyydd Cymorth Busnes GGGP**

Byddaf yn rhoi cefnogaeth ariannol a gweinyddol i bartneriaeth y prosiect.
Fy rôl fydd casglu a rheoli data, trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau a bod yn fan cyswllt ar gyfer ymholiadau am GGGP.

## Beth sydd nesaf i Bartneriaeth y GGGP?

Bydd y chwe mis nesaf yn brysur tu hwnt ar gyfer y bartneriaeth. Wrth i weddill y swyddi o fewn tîm cyflenwi GGGP gael eu llenwi, bydd gwaith yn mynd rhagddo ar draws pob ffrwd gwaith. Bydd y parcmyn dan hyfforddiant yn dechrau ar eu cyfnod sefydlu yn y swydd ac yn dechrau cyflwyno prosiectau mynediad. Bydd prosiectau Seilwaith Gwyrdd yn gweld gwelliannau yn y tirwedd ar draws ardal Gwent ac ar lefel strategol, bydd y grŵp yn dechrau gweithio tuag at strategaeth Seilwaith Gwyrdd Rhanbarthol ac Asesiad Effaith Iechyd.

Mae gweithgareddau a digwyddiadau ar y gweill ar gyfer 2022, felly dilynwch ni ar Twitter @Gwentgreengrid i gael yr holl newyddion diweddaraf ac ail-drydarwch a rhannwch mor eang ag sydd modd os gwelwch yn dda.

I gael mwy o wybodaeth ewch i dudalennau gwefan GGGP:
www.monlife.co.uk/outdoor/green-infrastructure/green-infrastructure-partnerships-projects/